Dasatinib, nilotinib ac imatinib ar gyfer lewcemia myeloid cronig heb ei drin

21 Rhagfyr 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir dasatinib (Sprycel), imatinib (Glivec) a nilotinib (Tasigna) fel triniaethau posibl ar gyfer oedolion â lewcemia myeloid cronig cromosom-Philadelphia-positif sydd heb ei drin ac yn y cam cronig.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych lewcemia myeloid cronig, a bod eich meddyg yn credu mai dasatinib yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu ei chael ar y GIG.

Y cyflwr a'r triniaethau

Mae lewcemia myeloid cronig yn ganser o fath o gell gwaed gwyn (a elwir yn gelloedd myeloid). Mae'r celloedd hyn yn lluosi mewn ffordd afreolus ac yn atal celloedd gwaed eraill rhag gweithio'n iawn. Mae tri phrif gam i'r afiechyd: y cam cronig (pan fydd y rhan fwyaf o bobl yn cael diagnosis), y cam wedi'i gyflymu a'r cam argyfwng-ffrwydrad. Mae gan y rhan fwyaf o bobl â lewcemia myeloid cronig gromosom annormal a elwir yn gromosom Philadelphia yn eu celloedd canser (a elwir yn afiechyd cromosom-Philadelphia-positif).

Mae dasatinib, imatinib a nilotinib yn atal celloedd canser rhag tyfu a lluosi. Mae'n arafu neu'n atal y canser rhag lledaenu.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- GOFAL Lewcemia, 0808 8010 444
- Bloodwise (Ymchwil Lewcemia a Lymffoma yn flaenorol), 0207 504 2200
- Cymdeithas Canser Lewcemia, 0208 374 4821
- CLL Support Association, 0800 977 4396

- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-978-1-4731-2323-6